




## Cyfarfod – estyniad newydd

Mae croeso cynnes i chi rieni a gwarcheidwaid yr ysgol fynychu cyfarfod gyda'r cwmni adeiladu WYNNE wrth i ni agosáu at gychwyn adeiladu'r estyniad newydd.

Cynhelir y cyfarfod yn neuadd yr ysgol am 4yp ar ddydd Mawrth y 9fed o Fehefin. Bydd yn gyfle i weld y cynlluniau a chlywed am drefniadau cludo nwyddau i'r safle a pharcio ac ati. Gan na fydd pawb ohonoch yn medru mynychu, byddaf yn rhannu unrhyw wybodaeth a rennir yn y cyfarfod gyda chi mewn e-bost yn dilyn hynny.

## *New extension – a meeting*

*We extend a warm welcome to all school parents and guardians to attend a meeting with the construction company WYNNE as we approach the start of building the new extension.*

*The meeting will be held in the school hall at 4pm on Tuesday 9th June. It will be an opportunity to see the plans and hear about arrangements for deliveries to the site, parking, and so on. As not all of you will be able to attend, I will share any information discussed at the meeting with you by email afterwards.*

---



## Taith Peripatetig yn y Neuadd Fawr

Bydd blynyddoedd 1-6 yn mynychu'r Neuadd Fawr ar brynhawn dydd Mawrth y 9fed o Fehefin i wylio perfformiad gan yr athrawon offerynnol. Does dim cost ynghlwm wrth y digwyddiad hwn gan y bydd bl.3-6 yn cerdded, a thelir am fws ar gyfer bl.1a2 gan y Gwasanaeth Cerdd.

## *Peripatetic visit to the Great Hall*

*Years 1–6 will attend the Great Hall on the afternoon of Tuesday 9th June to watch a performance by the instrumental teachers. There is no cost associated with this event, as Years 3–6 will walk, and the Music Service will pay for a bus for Years 1 and 2.*

---



## Tynnu lluniau dosbarthiadau

Ar ddydd Mercher y 10fed o Fehefin mi fydd cwmni Tempest yn tynnu lluniau'r plant yn eu dosbarthiadau/blynyddoedd dysgu.
Bydd angen i'r plant fod yn gwisgo naill ai siwmper/crys polo **coch** yr ysgol, neu'r crys polo **gwyn**. Os hoffech brynu gwisg ysgol ail-law yn barod ar gyfer y lluniau, bydd stondin 'Y Lein Ddillad' tu allan i brif fynedfa'r ysgol fore dydd Llun lle bydd dillad ar gael am £2 yr eitem.

## *Class Photographs*

*On Wednesday, June 10th, Tempest Photography will be taking photos of the children in their classes/year groups.*
*Children will need to wear either the school's **red** jumper/red polo shirt or the **white** polo shirt.*
*If you would like to purchase second-hand school uniform in preparation for the photos, the 'Lein Ddillad' stall will be outside the main school entrance on Monday morning, where clothes will be available for £2 per item.*

---




## Adborth i Eisteddfod yr Urdd

Yn dilyn y newidiadau i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, maent yn gofyn am eich adborth.

Cliciwch ar y ddolen isod i fynychu ffurflen Forms i anfon eich sylwadau yn syth at yr Urdd.

Barod i Wrando

## *Feedback for the Urdd Eisteddfod*

*Following the changes to this year's National Urdd Eisteddfod, they are asking for your feedback. Click on the link below to access a Forms questionnaire and send your comments directly to the Urdd.*

*Ready to Listen*

## Sioe Aberystwyth




Mae Mrs Buddug Davies eisoes wedi rhannu copïau papur o gystadlaethau cynradd Sioe Aberystwyth eleni gyda phawb (gyda chopi ar waelod y ddau lythyr diwethaf o'r llythyr hwn hefyd). Os hoffech i'r ysgol fynd ag eitemau i'r Sioe bydd angen iddynt gyrraedd Mrs Davies ym mlwyddyn 5 erbyn dydd Gwener y 12$^{fed}$. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar lythyr Mrs Davies, sef i

1. *osod y label ar y cefn gan ddefnyddio clip papur ac nid glud, gyda'r wybodaeth yma os gwelwch yn dda:*
2. *eich enw llawn ar y cefn*
3. *enw Dosbarth a Blwyddyn*
4. *rhif y gystadleuaeth yn glir*

## *Aberystwyth Show*

*Mrs Buddug Davies has already shared paper copies of this year's Aberystwyth Show primary competitions with everyone (along with a copy shared at the bottom of this letter for past couple of weeks) If you would like the school to take items to the Show, they must reach Mrs Davies in Year 5 by Friday, June 12$^{th}$.*
*Please follow the instructions in Mrs Davies's letter, which are:*

1. *attach the label to the back using a paperclip, not glue, with the following information:*
2. *your full name on the back*
3. *class name and Year group*
4. *the competition number clearly visible*

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon






Fel y llynedd mi fydd y G.Rh.A yn gwerthu hufen iâ wrth giât yr ysgol ar ddiwedd y dydd ar rai prynhawniau Gwener pan fo'r tywydd yn braf. Bydd hyn yn digwydd yn gyntaf ddydd Gwener nesaf  y 12fed o Fehefin. Croeso i chi ddod ag arian parod neu dalu â cherdyn. Gweler y poster ar ddiwedd y llythyr am y dyddiadau i gyd.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn awyddus i greu tywelion tê gyda lluniau'r plant arnynt. Bydd y plant i gyd yn mynd ati i lunio'r rhain wythnos nesa!

## *Parents and Teachers Association*

*The PTA will once again be selling ice creams at the school gate after school on selected Friday afternoons when the weather is nice. This will begin next Friday, 12$^{th}$ June. You are welcome to bring cash or pay by card. Please see the poster at the end of the letter for all the dates.*

*The PTA is also keen to create tea towels featuring the children's drawings. All pupils will be working on these next week!*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – C.Rh.A


## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A

## Calendr Hanner Tymor



Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.


## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

| **Dyddiadau pwysig Tymor yr haf 2026:** | ***Summer term 2026 important dates:*** |
|---|---|
| • Tynnu lluniau dosbarthiadau : Mehefin 10fed | • *Class photographs : June 10th* |
| • H.M.S : Mehefin 22ain (Dydd Llun) | • *I.N.S.E.T Day : June 22nd (Monday)* |
| • Mabolgampau Meithrin : Mehefin 25ain | • *Meithrin Sports Day : June 25th* |
| • Mabolgampau gweddill yr ysgol : Gorffennaf 2ail | • *Sports Day for rest of school : July 2nd* |
| • Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 16eg | • *PTA Barbeque/Summer Festival : July 16th* |
| • Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 17eg | • *Last day of term : July 17th* |

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**05/06/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru



Sioe Sir Ceredigion
ABERYSTWYTH
Ceredigion County Show

**Beth am fynd ati i gwblhau'r tasgau ar gyfer Sioe Aberystwyth eleni? Mae croeso i chi gystadlu ym mhob un o'r cystadlaethau o fewn eich grŵp oedran.**

**Dewch â'ch gwaith i'r ysgol erbyn:-**

- **Dydd Gwener y 12fed o Fehefin (neu mae croeso i chi fynd â nhw i'r Sioe ar fore'r sioe)**
- **I Mrs Buddug Davies Blwyddyn 5 Rheidol**
- **Gosodwch y label ar y cefn gan ddefnyddio clip papur ac nid glud, gyda'r wybodaeth yma os gwelwch yn dda.**
- **Eich enw llawn ar y cefn**
- **Enw Dosbarth a Blwyddyn**
- **Rhif y gystadleuaeth yn glir**

**Enw:**
**Ysgol Gymraeg Aberystwyth**

SIOP FFOTO SHOP

**Ffotograffiaeth / Photography**
Both colour and Black and White photographs are permitted, made with either digital or film cameras. A maximum of two entries only per person in any class will be permitted. **All photographs to be mounted on black card no larger than A4 or will not be judged.** Selective printing or digital manipulation to adjust print colour/ quality or cropping, to improve photographs is encouraged.

**Disgyblion Cynradd / Primary school pupils**
Taleb yn rhoddedig gan **'Siop Ffoto'**
Voucher donated by **'Ffoto Shop'**

67. Coeden / A Tree
68. Fy hoff fwyd / My favourite food
69. Anifail neu bryfyn / An animal or insect

**Special 8**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to the Best Exhibit. Siop Ffoto Shop Voucher to the best exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 67-69.

**ADRAN Y PLANT / CHILDREN'S SECTION**

**MEITHRIN a DERBYN / NURSERY and RECEPTION**

76. Enfys unrhyw gyfrwng / Rainbow any medium (dim mwy na A4 / No bigger than A4)
77. Carreg gron wedi'i pheintio / A painted pebble
78. Cacen " Rice Crispy" wedi'i addurno / A decorated "Rice Crispy" Cake
79 Dafad unrhyw gyfrwng / Sheep any medium

**Special 11**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to.the Best Exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 76 -79.

**BLWYDDYN 1 a 2 / YEARS 1 & 2**
80. Anifail wedi'i beintio / Painting of an animal (Dim mwy na A4 / Maximum size A4)
81. Wellington wedi'i addurno/ A decorated Wellington boot
82. Bisged wedi'i addurno / A decorated biscuit
83. Eitem 2D neu 3D yn cyfleu y thema "Breuddwydion" / 2D or 3D item portraying – "Dreams"

**Special 12**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to the Best Exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 80 - 83.


**BLWYDDYN 3 a 4 / Years 3 & 4**
84. Plât papur wedi'i addurno / A decorated paper plate
85. Pedair Brownie / Four Brownies
86. Buwch unrhyw gyfrwng / A Cow any medium
87. Eitem 2D neu 3D yn cyfleu y thema "Breuddwydion" / 2D or 3D item portraying – "Dreams"

**Special 13**
A silver cup to be won outright and a rosette will be awarded to the Best Exhibit.
A Rosette will be awarded to the exhibitor gaining the highest number of points in classes 84 - 87.

**BLWYDDYN 5 a 6 / YEARS 5 & 6**
88. Mochyn unrhyw gyfrwng / A Pig any medium
89. Pedair sleisen o "tray bake" / Four slices from a tray bake
90. Trefniant Blodau mewn tebot / A Flower arrangement in a Teapot
91. Eitem 2D neu 3D yn cyfleu y thema "Breuddwydion" / 2D or 3D item portraying – "Dreams"






**Tocynnau am ddim - Free tickets for Musicfest Aberystwyth!**

Mae Musicfest Aberystwyth yn un o brif ŵyliau cerddoriaeth rhyngwladol Prydain. Mae'n gyfle i brofi rhai o gerddorion clasurol gorau'r byd rhwng yr 18 – 25 o Orffennaf. Mae pob tocyn i bob cyngerdd am ddim i bawb dan 25 oed. I weld rhaglen yr ŵyl ewch i www.musicfestaberystwyth.org. I archebu tocynnau am ddim i'r rhai dan 25 oed, cysylltwch â Swyddfa Docynnau Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar 01970 623 232.

Musicfest Aberystwyth is one of the UK's main international music festivals. It's a rare opportunity to experience some of the best classical musicians in the world from the 18 – 25 of July. All tickets to all concerts are free for everyone under 25. To see the festival programme go to www.musicfestaberystwyth.org. All free tickets for under 25's must be booked via the Box Office at Aberystwyth Arts Center on 01970 623 232.

